

Fframwaith cyffredin dros dro: Taliadau hwyr (trafodion masnachol) Papur briffio

Awst 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 7571**

E-bost: **Lucy.Valsamidis@senedd.cymru**

Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**

Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

Tanysgrifiwch: **[Diweddariadau mewn amser real](#) | [Diweddariadau wythnosol a misol](#)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Fframwaith cyffredin dros dro: Taliadau hwyr (trafodion masnachol)

Papur briffio

Awst 2022

Awduron:

Lucy Valsamidis a Sara Moran



Cyhoeddodd Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig y **fframwaith cyffredin dros dro ar daliadau hwyr (trafodion masnachol)** ym mis Rhagfyr 2021.

Mae fframweithiau cyffredin yn gytundebau rhwng Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig ar sut i gydweithio a rheoli gwahaniaethau mewn meysydd a lywodraethwyd yn flaenorol ar lefel yr UE.

Mae fframweithiau cyffredin dros dro yn cael eu cyhoeddi ar gyfer gwaith craffu. Yn 2022, bu **Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus** y Senedd yn craffu ar y fframwaith cyffredin dros dro ar daliadau hwyr (trafodion masnachol), a gwnaeth **argymhellion** arno i Lywodraeth Cymru.

Unwaith y bydd pob senedd wedi cwblhau'r gwaith craffu, mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig yn bwriadu ymateb i'r argymhellion a chytuno ar fersiwn derfynol.

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi trosolwg o'r fframwaith cyffredin dros dro ar daliadau hwyr (trafodion masnachol).

Cynnwys

Crynodeb	1
1. Cefndir	1
2. Y fframwaith cyffredin	2
3. Llywodraethu	3
Rolau a Chyfrifoldebau.....	3
Gwneud penderfyniadau	3
Rheoli'r rhwymedigaethau rhyngwladol	4
Rheoli effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU	4
Datrys anghydfodau	5
Newidiadau arfaethedig i gyfraith a pholisi.....	5
4. Monitro, adolygu a diwygio	6
5. Tryloywder ac atebolrwydd	7

Crynodeb

Nod cyfraith yr UE ar daliadau hwyr yw diogelu busnesau bach a chanolig eu maint rhag taliadau hwyr gan awdurdodau cyhoeddus a busnesau eraill. Gan fod cyfnod pontio Brexit bellach wedi dod i ben, gall Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig ('y llywodraethau') ddilyn trywydd gwahanol o ran cyfraith taliadau hwyr.

Mae'r fframwaith cyffredin dros dro ar daliadau hwyr (trafodion masnachol) ('y fframwaith' o hyn ymlaen) yn nodi sut y bydd y llywodraethau'n gweithio gyda'i gilydd i reoli gwahaniaethau o ran cyfraith taliadau hwyr. Mae'r llywodraethau wedi cytuno i geisio cynnal sefyllfa deg i fusnesau ac maent wedi ymrwymo i roi gwybod i'w gilydd am gynigion ar gyfer cyfraith a pholisi newydd, ac i ymgynghori â'i gilydd ar gynigion o'r fath.

Mae'r fframwaith yn nodi proses datrys anghydfodau. Os na fydd y llywodraethau'n cytuno a ddylid mabwysiadu'r un dull neu ddilyn trywydd gwahanol, byddant yn ceisio datrys yr anghydfod ar y lefel isaf bosibl. Yna bydd modd iddynt drosglwyddo'r anghydfod i uwch-swyddogion ac i Weinidogion.

Nid yw'r fframwaith yn cynnwys gofyniad i'r llywodraethau roi'r wybodaeth ddiweddaraf i seneddau a rhanddeiliaid am ei weithrediad. Nid oes gofyniad ychwaith i gynnwys seneddau a rhanddeiliaid yn y broses o adolygu a diwygio'r fframwaith. Mae'r llywodraethau wedi cytuno mewn egwyddor i adrodd yn rheolaidd i'r seneddau ar fframweithiau cyffredin. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cytuno'n unochrog i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar fframweithiau cyffredin ac i ymgynghori â'r Senedd a rhanddeiliaid wrth adolygu a diwygio.

1. Cefndir

Mae'r fframwaith cyffredin dros dro ar daliadau hwyr yn cwmpasu Cyfarwyddeb Taliadau Hwyr yr UE (2011/7/EU). Cafodd hyn ei drosi'n gyfraith ddomestig. Mae'r rheoliadau sy'n trosi'r Gyfarwyddeb yn gyfraith ddomestig wedi cael eu cadw ar ôl diwedd y cyfnod pontio.

Nod y Gyfarwyddeb yw **diogelu busnesau bach a chanolig eu maint** rhag taliadau hwyr gan awdurdodau cyhoeddus a busnesau eraill. Mae'n darparu:

- bod rhaid i awdurdodau cyhoeddus dalu am y nwyddau a'r gwasanaethau y maent yn eu caffael o fewn 30 diwrnod;

- bod rhaid i fentrau dalu eu hanfonebau o fewn 60 diwrnod, oni bai eu bod yn cytuno'n benodol fel arall ac ar yr amod nad yw'n hynod annheg;
- hawl awtomatig i log am daliad hwyr ac isafswm o €40 fel iawndal am gostau adennill (yn y DU, tâl sefydlog o £40, £70 neu £100 yn dibynnu ar faint y ddyled, ynghyd â chostau rhesymol ychwanegol a ysgwyddir); ac
- y telir llog statudol ar daliadau hwyr, ac y bydd hynny o leiaf 8% yn uwch na chyfradd gyfeirio Banc Canolog Ewrop (yn y DU, cyfradd gyfeirio Banc Lloegr ynghyd ag o leiaf 8 pwynt canran).

Yn yr UE, caniateir i awdurdodau cenedlaethol fabwysiadu cyfreithiau sy'n fwy ffafriol i gredydwy'r hyn a ganiateir yn y Gyfarwyddeb.

Mae cyfraith taliadau hwyr wedi'i datganoli. Gan fod y cyfnod pontio bellach wedi dod i ben, nid oes angen i'r llywodraethau gydymffurfio â chyfraith yr UE, a gallant ddilyn trywydd gwahanol o ran cyfraith taliadau hwyr. Mae'r fframwaith yn ceisio sicrhau bod modd rheoli gwahaniaethau posibl rhwng gwahanol rannau o'r DU.

2. Y fframwaith cyffredin

Mae'r fframwaith yn cadarnhau'r **egwyddorion ar gyfer fframweithiau cyffredin** y cytunwyd arnynt rhwng y llywodraethau gan Gyd-bwyllgor y Gweinidogion (Negodiadau Ewropeaidd) ym mis Hydref 2017.

Mae'r fframwaith yn nodi y bydd angen y fframwaith hwn **i sicrhau bod y farchnad fewnol yn gweithio, gan gydnabod gwahaniaethau polisi ar yr un pryd**. Mae'r llywodraethau'n cytuno i gynnal sefyllfa deg i fusnesau sy'n gweithredu ar draws y DU.

Mae'r fframwaith yn nodi, er bod rhywfaint o gyfle i'r llywodraethau ddilyn trywydd gwahanol tra roeddent yn rhan o'r UE, gwnaethant ddewis cadw'r un rheolau er mwyn sicrhau na fyddai rhai busnesau'n wynebu anfantais gystadleuol.

3. Llywodraethu

Mae'r fframwaith yn gytundeb anneddfwriaethol rhwng y llywodraethau. Bydd yn cael ei ategu gan y llythyrau a gyfnewidir rhwng y Gweinidogion.

Rolau a Chyfrifoldebau

Mae'r fframwaith yn nodi strwythur llywodraethu ag iddo nifer o haenau fel bod modd i'r llywodraethau gydweithio a gwneud penderfyniadau:

- ar lefel swyddogion, bydd **Gweithgor Taliadau Hwyr** yn cyfarfod yn rheolaidd fel y gall swyddogion drafod datblygu polisi, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd, a chodi pryderon ac ymwybyddiaeth o faterion trawsbynciol.
- ar lefel uwch-swyddogion, bydd **Bwrdd y Rhaglen Taliadau Hwyr** yn cyfarfod yn ôl yr angen i oruchwylio'r Gweithgor, a thrafod unrhyw benderfyniadau ac anghydfodau sy'n cael eu trosglwyddo iddo.
- Bydd **Gweinidogion** yn ystyried penderfyniadau ac anghydfodau sy'n cael eu trosglwyddo iddynt.

Bydd un o swyddogion llywodraeth y DU yn cadeirio'r Gweithgor Taliadau Hwyr, tra bydd y pedair llywodraeth yn cadeirio Bwrdd y Rhaglen Taliadau Hwyr yn eu tro. Bydd llywodraeth y DU yn darparu cymorth ysgrifenyddol.

Gwneud penderfyniadau

Mae'r llywodraethau yn cytuno i ystyried effaith eu penderfyniadau ar lywodraethau eraill a marchnad fewnol y DU. Maent yn cytuno i roi gwybod i'r llywodraethau eraill am unrhyw newidiadau deddfwriaethol arfaethedig cyn gynted â phosibl ac i ymgynghori â nhw.

Bydd swyddogion o'r llywodraethau yn trafod cynigion polisi drwy'r Gweithgor Taliadau Hwyr ac yn gwneud argymhellion i Weinidogion. Gallai hynny fod ar gyfer yr un dull o ymdrin â deddfwriaeth ledled y DU neu ar gyfer dulliau gwahanol.

Os na fydd y llywodraethau yn cytuno a yw'n briodol dilyn trywydd gwahanol, gellir cyfeirio'r anghytundeb at y broses datrys anghydfodau.

Mae **Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd wedi galw** ar Lywodraeth Cymru i ofyn am gytundeb na ddylai'r fframwaith wanhau rôl seneddau a rhanddeiliaid wrth wneud cyfreithiau a pholisïau. Mae **Llywodraeth Cymru wedi dweud** nad yw'r fframwaith yn cyfyngu ar bwerau'r Senedd.

Rheoli'r rhwymedigaethau rhyngwladol

Yn 2017, **cytunodd y llywodraethau** y dylid sefydlu fframweithiau cyffredin lle bo angen i:

- sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol;
- sicrhau y gall y DU drafod cytundebau masnach a chytundebau rhyngwladol newydd, ymrwymo iddynt a'u rhoi ar waith.

Yn wahanol i'r rhan fwyaf o fframweithiau cyffredin, nid yw'r fframwaith taliadau hwyr yn cynnwys unrhyw ystyriaeth o ran sut y bydd yn rhyngweithio â rhwymedigaethau rhyngwladol.

O ran **rhwymedigaethau'r DU a'r UE ar ôl Brexit**, mae'r fframwaith yn cydnabod nad yw'n ddarostyngedig i'r **Cytundeb Masnach a Chydweithredu**, ac nad yw **Protocol y Cytundeb Ymadael ar Iwerddon a Gogledd Iwerddon** yn berthnasol iddo ychwaith.

Rheoli effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU

Cytunodd y llywodraethau hefyd yn 2017 y dylid sefydlu fframweithiau cyffredin lle bo angen er mwyn sicrhau bod marchnad fewnol y DU yn gweithio, er mwyn atal rhwystrau masnachu anfwriadol rhag datblygu rhwng gwahanol rannau'r DU.

Ym mis Rhagfyr 2020, pasiodd Senedd y DU **Ddeddf Marchnad Fewnol y DU 2020** ('y Ddeddf'). Mae hyn yn gosod egwyddorion newydd yn y gyfraith o ran mynediad i'r farchnad. Bwriad yr egwyddorion hyn yw sicrhau, yn gyffredinol, y gellir gwerthu neu gydnabod nwyddau, gwasanaethau a chymwysterau proffesiynol a gaiff eu gwerthu neu eu cydnabod mewn un rhan o'r DU mewn rhan arall.

Mae adrannau **10** a **18** o'r Ddeddf yn caniatáu i Lywodraeth y DU wneud rheoliadau i greu eithriadau o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad. Gallant wneud hyn i roi effaith i gytundeb sy'n rhan o gytundeb fframwaith cyffredin. Mae'r llywodraethau wedi cytuno ar **broses ar gyfer ystyried eithriadau o'r egwyddorion mynediad i'r farchnad mewn meysydd fframwaith cyffredin, a chytuno i'r eithriadau hynny**.

Mae **dadansoddiad Llywodraeth y DU yn awgrymu** y bydd y Ddeddf yn cael effaith ar weithrediad y fframwaith hwn. Nid yw'n glir i ba raddau y bydd y Ddeddf yn effeithio ar y fframwaith, nac a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu ceisio unrhyw eithriad.

Datrys anghydfodau

Mae'r fframwaith yn cynnwys proses ar gyfer datrys anghydfodau. Mae'n nodi mai dim ond os na ellir datrys anghydfodau ar lefel gweithredol y dylid defnyddio'r broses hon.

Os bydd swyddogion y Gweithgor Taliadau Hwyr yn anghytuno ynghylch argymell y dylai'r llywodraethau fabwysiadu dull cyffredin neu ddilyn trywydd gwahanol, gellir trosglwyddo'r anghydfod i Fwrdd y Rhaglen Taliadau Hwyr ac yna i Weinidogion portffolio. Mae'r llywodraethau'n cytuno y dylid gohirio camau gweithredu sy'n destun anghydfod tra bod y broses datrys anghydfodau'n mynd rhagddi. Pam nad oes terfynau amser wedi'u pennu ar gyfer datrys anghydfodau?

Os na ellir datrys yr anghydfod drwy'r broses hon, gellir ei uwchgyfeirio i'r broses datrys anghydfod rhyngweinidogol a nodir yn yr **Adolygiad diweddar o Gysylltiadau Rhynglywodraethol. Dywedodd y Cwnsler Cyffredinol** fod hyn yn gam arloesol.

Nid yw'r fframwaith yn darparu ar gyfer hysbysu seneddau neu randdeiliaid am anghydfodau. Fodd bynnag **mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo** i hysbysu'r Senedd am anghydfodau.

Newidiadau arfaethedig i gyfraith a pholisi

Bil Caffael y DU

Cyflwynodd Llywodraeth y DU **Fil Caffael** i ddiwygio cyfraith gaffael sy'n deillio o'r UE ym mis Mehefin 2022.

Mae Rhan 4 o'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer telerau mewn contractau cyhoeddus. Fel rhan o hyn, byddai'n cyflwyno gofyniad i awdurdodau contractio wneud taliadau o fewn 30 diwrnod, ac yn rhoi pŵer i Weinidogion leihau'r cyfnod hwn drwy reoliadau.

Mae'r llywodraethau hefyd wedi cytuno ar fframwaith cyffredin dros dro ar gaffael cyhoeddus. Mae **Llywodraeth Cymru wedi dweud** bod y fframwaith cyffredin ar gaffael cyhoeddus y tu hwnt i gwmpas y fframwaith taliadau hwyr, ac nad oes cysylltiad rhwng y ddau fframwaith.

Mae **Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd wedi argymell** y dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau bod swyddogion taliadau hwyr yn cymryd rhan mewn trafodaethau ynglŷn ag unrhyw ddiwygiad

arfaethedig perthnasol i gyfraith caffael.

Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus Llywodraeth Cymru

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru **Fil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus ym mis Mehefin 2022.**

Bydd hyn yn gosod dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodol i ystyried defnyddio prosesau caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol, i bennu amcanion mewn perthynas â nodau llesiant, ac i gyhoeddi strategaeth gaffael.

Mae **Llywodraeth Cymru wedi cydnabod** y gallai fod cysylltiadau rhwng y Bil hwn a Bil Caffael y DU.

Adolygiad Llywodraeth y DU o gyfraith yr UE a ddargedwir

Mae **Llywodraeth y DU** wedi amlinellu cynlluniau i gyflwyno Bil Cyfraith yr UE a ddargedwir i'w gwneud yn haws newid neu ddiddymu cyfraith yr UE a ddargedwir a dileu'r **statws arbennig** sydd ganddo yng nghyfraith y DU.

Mae **Llywodraeth y DU wedi dweud** na fydd yn ceisio gwneud newidiadau i gyfraith yr UE a ddargedwir o fewn Fframweithiau Cyffredin heb ddilyn y prosesau y cytunwyd arnynt gan weinidogion ym mhob fframwaith.

4. Monitro, adolygu a diwygio

Bydd y Gweithgor Taliadau Hwyr yn goruchwyllo sut mae'r fframwaith yn gweithio. Bydd y Gweithgor Taliadau Hwyr a Bwrdd y Rhaglen Taliadau Hwyr yn adolygu sut mae'r cyrff hynny'n gweithio bob blwyddyn o gymharu â'u cylchoedd gorchwyl.

Bydd y llywodraethau yn adolygu'r fframwaith yn rheolaidd. Nid yw'n glir pa mor aml y bydd yr adolygiad hwn yn digwydd: mae'r fframwaith yn nodi y bydd yn cael ei adolygu 'yn flynyddol', ond wedyn mae'n dweud y bydd adolygiadau'n digwydd flwyddyn ar ôl cymeradwyo'r fframwaith yn derfynol, a phob tair blynedd wedi hynny. Mae **Llywodraeth Cymru wedi dweud** bod y fersiwn olaf yn gywir.

Bydd yr adolygiadau'n ystyried cydymffurfiaeth â'r fframwaith ac a yw'n parhau'n addas i sicrhau y gall pob parti gyflawni ei nodau o ran polisi taliadau hwyr.

Efallai y bydd adolygiad hefyd os bydd 'mater sylweddol' yn codi sy'n cael 'effaith sylfaenol' ar sut mae'r fframwaith yn gweithio ac sy'n sensitif o ran amser.

Yn dilyn adolygiad, caiff y llywodraethau gytuno i drafod diwygiadau posibl os bydd cytundeb unfrydol. Rhaid cytuno'n unfrydol ar ddiwygiadau i'r fframwaith. Os na fydd cytundeb, gellir defnyddio'r broses datrys anghydfodau.

5. Tryloywder ac atebolrwydd

Nid yw'r fframwaith yn nodi a fu unrhyw ymgynghori â rhanddeiliaid. Mae **Llywodraeth Cymru wedi dweud** bod amrywiaeth o rhanddeiliaid wedi cael crynodeb o'r fframwaith ledled y DU.

Mae'r fframwaith yn nodi nad oes unrhyw gynlluniau i ymgysylltu â seneddau na rhanddeiliaid yn rheolaidd yn y maes polisi hwn a bod cyfathrebu'n digwydd ar sail ad hoc.

Nid oes unrhyw ymrwymiadau i roi rôl i seneddau o ran monitro gweithrediad y fframwaith na chraffu ar welliannau. Dywed y fframwaith y gall y llywodraethau ddefnyddio trydydd partion i gynghori ar adolygu a diwygio'r fframwaith. Gallai hyn gynnwys cyrff llywodraeth neu rhanddeiliaid allanol. Ym mis Mawrth, **ymrwymodd y Cwnsler Cyffredinol** i hysbysu'r Senedd a rhanddeiliaid pan gaiff fframwaith cyffredin ei adolygu, a thrafod eu hargymhellion cyn i'r broses adolygu ddod i ben.

Nid oes unrhyw ymrwymiad i gynhyrchu na chyhoeddi adroddiadau ar weithrediad y fframwaith. Mae **Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo** yn unochrog i adrodd yn flynyddol ar weithrediad pob fframwaith. Ym mis Tachwedd, **dywedodd y Cwnsler Cyffredinol** fod y llywodraethau oll wedi cytuno i adrodd ar fframweithiau cyffredin yn y dyfodol.